O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 17

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*29 Ionawr 2026*
Yn dod i rym	*2 Mawrth 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 17

The National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*29 January 2026*
Coming into force	*2 March 2026*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 17

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023(**1**) ("Rheoliadau 2023"). Mae'r rheoliadau hynny yn nodi, ar gyfer Cymru, y fframwaith ar gyfer contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2023 er mwyn cywiro gwallau o natur dechnegol a mewnosod diffiniadau newydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(**1**) O.S. 2023/953 (Cy. 155).
(**2**) 2006 p. 42.

2026 Rhif 17

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*29 Ionawr 2026*
Yn dod i rym	*2 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 7(8), 41(5) a (6), 43, 44, 47 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**3**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 2 Mawrth 2026.

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2023" yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023(**4**).

Diwygio Rheoliadau 2023

4.—(1) Mae Rheoliadau 2023 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y mannau canlynol, yn lle "contract gwasanaethau meddygol cyffredinol" rhodder "Contract GMC"—

(a) yn rheoliad 3(1) (dehongli), yn y diffiniad o "contract", a

(b) yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "cyffur Atodlen".

(**3**) 2006 p. 42.
(**4**) O.S. 2023/953, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2023/1421.

(3) Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "ymarferydd meddygol cyffredinol", yn lle "o dan adran 2 o Ddeddf Meddygaeth 1983 (cofrestru ymarferwyr meddygol)" rhodder "o dan adran 34C o Ddeddf Meddygaeth 1983(**5**) (y Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol)".

(4) Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "Cofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal", yn lle "(cofrestru)" rhodder "(sefydlu a chynnal cofrestr);".

(5) Yn rheoliad 3(1), hepgorer y diffiniad o "parafeddyg cofrestredig".

(6) Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "rhagnodydd atodol", ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

> "ac sydd wedi ei gyflogi neu sydd wedi ei gymryd ymlaen gan y contractwr, neu mae'r contractwr wedi cadw ei wasanaethau at ddibenion rhagnodi;".

(7) Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "gwasanaethau unedig", yn lle "yw'r gwasanaethau y mae'n ofynnol eu darparu yn unol â rheoliad 17" rhodder "yw'r gwasanaethau y mae'n ofynnol eu darparu yn unol â rheoliadau 17 a 18(2)".

(8) Yn rheoliad 3(1), yn y testun Cymraeg, yn y diffiniad o "person awdurdodedig", yn lle "62(a) i (c)" rhodder "62(a) i (d)".

(9) Yn rheoliad 3(1), yn y lle priodol, yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

> "ystyr "amhariad gwybyddol sylweddol" ("*significant cognitive impairment*") yw bod person yn agored i amhariad gwybyddol sylweddol os oes ganddo gyflwr meddwl difrifol a pharhaol, neu newid niwrolegol difrifol a pharhaol, sy'n effeithio ar allu'r ymennydd i weithredu ac sy'n cael effaith sylweddol ar fywyd dyddiol yr unigolyn hwnnw;";
>
> "ystyr "anabledd dysgu" ("*learning disability*") yw gallu sylweddol is i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth, i ddysgu sgiliau newydd (amhariad deallusol), gyda llai o allu i ymdopi'n annibynnol (amhariad ar weithrediad cymdeithasol), a ddechreuodd cyn dod yn oedolyn;";
>
> "ystyr "gwasanaethau anableddau dysgu" ("*learning disability services*") yw'r gwasanaeth a ddisgrifir ym mharagraff 7A o Atodlen 2;";
>
> "ystyr "parafeddyg" ("*paramedic*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 8 o gofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;".

(10) Yn rheoliad 17(1) (gwasanaethau unedig), yn lle "cyfnod" rhodder "cyfnodau".

(11) Yn rheoliad 17(2)—

(a) yn lle "cyfnod" rhodder "cyfnodau", a

(b) yn y testun Saesneg, ar ôl y gair "paragraph", yn lle "is" rhodder "are".

(12) Yn rheoliad 17(6)—

(a) yn is-baragraff (e), yn lle "gwasanaethau meddygol mamolaeth" rhodder "gwasanaethau anableddau dysgu",

(b) yn is-baragraff (f), yn lle "gwasanaethau mân lawdriniaeth, ac" rhodder "gwasanaethau meddygol mamolaeth,",

(c) yn is-baragraff (g), yn lle "gwasanaethau brechu ac imiwneiddio." rhodder "gwasanaethau mân lawdriniaeth, ac", a

(d) ar y diwedd mewnosoder—

> "(h) gwasanaethau brechu ac imiwneiddio."

(**5**) Diwygiwyd adran 2 gan O.S. 2002/3135, O.S. 2006/1914, O.S. 2007/3101, O.S. 2008/1774 ac O.S. 2014/1101.

(13) Yn rheoliad 22(e) (amgylchiadau lle y caniateir codi ffioedd a thaliadau), ar ôl "o dan reoliad 21(6)" mewnosoder ")".

(14) Ar ôl rheoliad 22(i) mewnosoder—

"(j) am ragnodi neu ddarparu cyffuriau neu feddyginiaethau ar gyfer malaria cemoproffylacsis."

(15) Yn Atodlen 1, yn y tabl, yn y golofn gyntaf, yn lle "person sydd â nam difrifol ar ei feddwl" rhodder "person sydd ag amhariad gwybyddol sylweddol".

(16) Yn Atodlen 1 (rhestr o dystysgrifau meddygol rhagnodedig), yn y tabl, yn yr ail golofn—

(a) yn lle "Deddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985 (p. 22)" rhodder "Deddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985 (p. 17)";

(b) yn lle "Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 28)" rhodder "Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14)".

(17) Yn Atodlen 2 (manylion pellach ynghylch Gwasanaethau Unedig penodol)—

(a) yn lle y pennawd "Sgrinio serfigol" rhodder "Gwasanaethau sgrinio serfigol";

(b) yn lle y pennawd "Gwyliadwriaeth iechyd plant" rhodder "Gwasanaethau gwyliadwriaeth iechyd plant", ac

(c) yn lle y pennawd "Brechu ac imiwneiddio yn ystod plentyndod" rhodder "Gwasanaethau brechu ac imiwneiddio yn ystod plentyndod".

(18) Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 7, mewnosoder y canlynol—

"Gwasanaethau anableddau dysgu

7A. Rhaid i gontractwr—

(a) datblygu a chynnal cofrestr o'r unigolion hynny sy'n 18 oed a throsodd, sydd ag anableddau dysgu,

(b) dangos system adalw systematig ar gyfer pob claf sydd ar y gofrestr,

(c) darparu cynnig o wiriad iechyd blynyddol i gynnwys y gofynion sylfaenol a nodir yn y Canllawiau ar Weithredu'r Contract i Ddarparwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn Atodiad B(**6**), sy'n cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd,

(d) integreiddio'r gwiriad iechyd fel rhan o gofnod iechyd personol y claf,

(e) ymgysylltu â gofalwyr a gweithwyr cymorth, a gyda chydsyniad y claf lle bo modd, dylai gofalwr neu weithiwr cymorth gael ei hysbysu'n llawn am anghenion gofal iechyd y claf a'i gefnogi yn ôl yr angen,

(f) cysylltu â gwasanaethau cymorth lleol perthnasol megis gweithwyr iechyd cymunedol ac anabledd dysgu proffesiynol, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cymorth addysgol, ac

(g) pan fo'n briodol, hysbysu cleifion a'u gofalwyr am grwpiau cymorth gwirfoddol lleol a chenedlaethol am wybodaeth a chymorth hanfodol."

(19) Yn Atodlen 3 (telerau eraill yn y contract), paragraff 2, yn y testun Saesneg—

(a) hepgorer "staffed", a

(b) yn is-baragraff (a), o flaen "for the duration of core hours" mewnosoder "staffed".

(**6**) Ar gael ar https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredur-contract-i-ddarparwyr-gwasanaethau-meddygol-cyffredinol

(20) Yn Atodlen 3, paragraff 18(a), hepgorer “Tymor Canolig Integredig”.

(21) Yn Atodlen 3, paragraff 19(e), yn lle “Tymor Canolig Integredig y Gydweithredfa Ymarfer Cyffredinol” rhodder “y Clwstwr”.

(22) Yn Atodlen 3, paragraff 27(1), yn lle “(neu, yn achos plentyn neu oedolyn sydd heb alluedd, y person a wnaeth y cais ar ran y ceisydd)” rhodder “neu berson sy’n gwneud cais ar ran y person hwnnw”.

(23) Yn Atodlen 3, ar ôl paragraff 52(1) mewnosoder—

> “(1A) Rhaid i’r contractwr alluogi’r swyddogaeth amlragnodi yn Ap GIG Cymru, er mwyn galluogi cleifion i archebu presgripsiynau amlroddadwy.”

(24) Yn Atodlen 3, yn lle paragraff 70 rhodder “Ni chaiff y contractwr ond cynnig cyflogaeth i ymarferydd meddygol cyffredinol ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol na’r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen “Model terms and conditions of service for a salaried general practitioner employed by a GMS practice” a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Feddygol Prydain a Chonffederasiwn y GIG fel eitem 1.2 o’r dogfennau atodol i gontract GMC 2003.”

(25) Yn Atodlen 3, paragraff 76(7), ar ôl “materion clinigol” mewnosoder “a materion anghlinigol sy’n ymwneud yn uniongyrchol â chlaf.”

(26) Yn Atodlen 3, paragraff 76(8), yn lle “yn ddarostyngedig i unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan is-baragraff (1)(b)” rhodder “yn ddarostyngedig i unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan is-baragraff (5)”.

(27) Yn Atodlen 3, paragraff 78(3)(b), yn y testun Saesneg, o flaen “have been enabled” mewnosoder “and”.

(28) Yn Atodlen 3, paragraff 78(3)(c), yn lle “bod y contractwr yn ymwybodol o’r canllawiau sydd wedi eu cynnwys yn “The Good Practice Guidelines for GP electronic patient records (Version 4)” a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2011 ac wedi llofnodi ymgymeriad bod rhaid iddo roi sylw i’r canllawiau hynny” rhodder “bod y contractwr yn cydymffurfio â “Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru” ac yn ymwybodol o’r canllawiau sydd wedi eu cynnwys yn “The Good Practice Guidelines for GP electronic patient records (GPGv5)”, a gyhoeddwyd ar 20 Medi 2023, ac wedi llofnodi ymgymeriad bod rhaid iddo roi sylw i’r canllawiau hynny.”

(29) Yn Atodlen 3, paragraff 78, yn lle is-baragraff (5) rhodder—

> “(5) Pan fo claf ar restr y contractwr o gleifion yn marw, rhaid i’r contractwr—
>
> (a) cadw’r cofnodion meddygol cyflawn sy’n ymwneud â’r claf hwnnw ar ei system gyfrifiadurol glinigol,
>
> (b) ar ôl cael cais priodol am Gofnod Iechyd, rhaid i’r contractwr anfon y cofnodion cyflawn sy’n ymwneud â’r claf hwnnw i’r Bwrdd Iechyd Lleol neu at y sawl sydd wedi gwneud y cais, yn ôl y digwydd, ac
>
> (c) darparu’r cofnodion meddygol cyflawn i’r Bwrdd Iechyd Lleol neu’r sawl sydd wedi gwneud y cais o fewn saith niwrnod, lle bo modd, gan ddechrau â’r diwrnod y gwnaed y cais, ac mewn unrhyw achos cyn diwedd 40 niwrnod.”

(30) Yn Atodlen 3, paragraff 78(10), hepgorer “(5),”.

(31) Yn Atodlen 3, paragraff 78(13), ar ôl "ar gyfrifiadur" mewnosoder "ac mae "cais priodol am Gofnod Iechyd" yn gais a wneir gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu'n gais a wneir o dan Ddeddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990(**7**)."

(32) Yn Atodlen 3, paragraff 87, yn y tabl, o dan AF007 mewnosoder "DEM002", ac yn y golofn gyfatebol mewnosoder "Canran y cleifion sydd wedi cael diagnosis o ddementia y mae eu gofal wedi cael ei adolygu yn bersonol neu, os yw'n briodol yn glinigol, drwy ymgynghoriad ffôn neu fideo o bell mewn adolygiad wyneb yn wyneb yn y 15 mis blaenorol."

(33) Yn Atodlen 3, yn lle paragraff 88 gan gynnwys y pennawd rhodder—

"System Wybodaeth y Gweithlu Gofal Sylfaenol

88.—(1) Rhaid i'r contractwr ddiweddaru'r elfennau gweithlu yn System Wybodaeth y Gweithlu Gofal Sylfaenol er mwyn cynnwys—

(a) cyfrifiad a'r niferoedd cyfwerth ag amser cyflawn, a

(b) cofnod o'r holl ddechreuwyr newydd ac ymadawyr.

(2) Rhaid i'r contractwr gyrchu, adolygu a diweddaru, pan fo'n angenrheidiol, ei olwg dangosfwrdd yn System Wybodaeth y Gweithlu Gofal Sylfaenol o leiaf unwaith y mis."

(34) Yn Atodlen 3, ym mhennawd paragraff 93, ar ôl "adolygiad" mewnosoder "ffurfiol".

(35) Yn Atodlen 3, paragraff 93(4), yn lle "drefnu" rhodder "ystyried perfformiad y contractwr mewn perthynas â'r contract a threfnu".

(36) Yn Atodlen 3, paragraff 93, ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—

"(4A) Ar ôl ystyried y datganiad yn is-baragraff (4), bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu a oes angen adolygiad wyneb yn wyneb ffurfiol."

(37) Yn Atodlen 3, paragraff 93(5), ar ôl "adolygiad" mewnosoder "ffurfiol".

(38) Yn Atodlen 3, ar ôl paragraff 93(7) mewnosoder—

"(8) Rhaid i'r datganiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol—

(a) cyfanswm nifer y cleifion sydd ar y gofrestr AD,

(b) nifer y gwiriadau iechyd a gynigiwyd, ac

(c) nifer y gwiriadau iechyd a gwblhawyd.

(9) Yn y paragraff hwn ystyr "y gofrestr AD" yw'r rhestr o unigolion ag anableddau dysgu a reolir gan feddygon teulu yng Nghymru."

(39) Yn Atodlen 3, ar ôl paragraff 93 mewnosoder—

"Adolygiadau Tair Blynedd

93A.—(1) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol gynnal adolygiad wyneb yn wyneb gyda phob contractwr o leiaf bob tair blynedd i drafod perfformiad y contractwr mewn perthynas â'r contract.

(2) Caiff y contractwr neu'r Bwrdd Iechyd Lleol, os dymunir, wahodd y Pwyllgor Meddygol Lleol (os oes un) ar gyfer yr ardal y mae'r contractwr yn darparu gwasanaethau o dan y contract ynddi i gymryd rhan yn yr adolygiad ffurfiol.

(**7**) Mae adran 3(f) ac (g) o Ddeddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990 yn nodi'r hawl i gael mynediad at gofnodion iechyd pan fo claf wedi marw.

(3) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol baratoi cofnod drafft o'r adolygiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) i'r contractwr gyflwyno sylwadau arno a, gan roi sylw i'r sylwadau hynny, lunio cofnod ysgrifenedig terfynol o'r adolygiad.

(4) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol anfon copi o'r cofnod terfynol o'r adolygiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) at y contractwr.

(5) Mae'r adolygiad yn is-baragraff (1) yn ychwanegol at unrhyw adolygiad ffurfiol o dan baragraff 93."

(40) Yn Atodlen 3, paragraff 117(6)(b), yn lle "Banel Addasrwydd i Ymarfer" rhodder "Dribiwnlys Ymarferwyr Meddygol".

(41) Yn Atodlen 3, yn lle paragraff 119(3)(v) rhodder—

"(v) os yw'r contractwr wedi gwrthod cydymffurfio â chais gan y Bwrdd Iechyd Lleol i'r contractwr gael ei archwilio'n feddygol am fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn pryderu nad yw'r contractwr yn gallu darparu gwasanaethau yn ddigonol o dan y contract; a, phan fo'r contract gyda—

(i) partneriaeth, ac os yw unrhyw bartner wedi gwrthod cydymffurfio â chais o'r fath, neu

(ii) cwmni sy'n gyfyngedig drwy gyfrannau, ac os yw unrhyw berson sy'n dal cyfran yn y cwmni yn gyfreithiol neu'n llesiannol neu unrhyw gyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni wedi gwrthod cydymffurfio â chais o'r fath, ac

nad yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni bod y contractwr yn cymryd camau digonol i ddelio â'r mater."

(42) Yn Atodlen 3, ar ôl paragraff 130(2) mewnosoder—

"(2A) At ddibenion is-baragraff (3), mae unrhyw gyfeiriad at "y contractwr" i'w ddarllen fel un sy'n cynnwys—

(a) yn achos contract gyda phartneriaeth, unrhyw bartner yn y bartneriaeth, a

(b) yn achos contract gyda chwmni sy'n gyfyngedig drwy gyfrannau, unrhyw berson sy'n berchen ar gyfran yn y cwmni yn gyfreithiol neu'n llesiannol ac unrhyw gyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni."

(43) Yn Atodlen 3, paragraff 130(3), yn lle "y gellir ei ad-dalu" rhodder "y'i had-delir".

(44) Yn Atodlen 3, paragraff 132(2)(c), yn y testun Saesneg, yn lle "company limited with shares" rhodder "company limited by shares".

(45) Yn Atodlen 3, ar ôl paragraff 136 mewnosoder—

"Triniaethau Gwrthfeirol Covid

137. Rhaid i'r contractwr, os yw claf wedi profi'n bositif am Covid-19, asesu'n glinigol y claf gan gynnwys triniaeth wrthfeirol Covid-19. Os yw'n briodol yn glinigol, rhaid i'r contractwr ragnodi ac, os yw'n berthnasol, roi Paxlovid i'r claf.

Mynegeio Eiddilwch

138.—(1) Rhaid i'r contractwr gynnal asesiad eiddilwch fel rhan o adolygiad blynyddol clefyd cronig, ar gleifion priodol, gan ddefnyddio offeryn asesu Rockwood.

(2) Caiff y contractwr hefyd asesu eiddilwch cleifion yn ystod rhyngweithiadau eraill yn ystod y flwyddyn.

(3) Rhaid i'r contractwr ddiweddaru cofnod meddygol y claf â chodio priodol unwaith y bydd diagnosis wedi ei gadarnhau.

Cofnodi Ethnigrwydd

139. Rhaid i'r contractwr gofnodi ethnigrwydd ei holl gleifion, gan gynnwys cleifion newydd, yng nghofnod meddygol y claf, gan ddefnyddio'r categorïau grŵp ethnig yn yr holiadur set ddata genedlaethol gofynnol.

Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth Cymru

140. Rhaid i'r contractwr gefnogi cleifion sydd angen cymorth gyda phroses Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth Cymru i alluogi cleifion i gael mynediad at Ap GIG Cymru."

Jeremy Miles
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
29 Ionawr 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 17

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) Regulations 2023(**1**) ("the 2023 Regulations"). Those regulations set out, for Wales, the framework for general medical services contracts under section 42 of the National Health Service (Wales) Act 2006(**2**).

These Regulations make amendments to the 2023 Regulations to correct errors of a technical nature and insert new definitions.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained by contacting the Health and Social Services Group, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

(**1**) S.I. 2023/953 (W. 155).
(**2**) 2006 c. 42.

2026 No. 17

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*29 January 2026*
Coming into force	*2 March 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 7(8), 41(5) and (6), 43, 44, 47 and 203(9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006(**3**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) (Amendment) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 2 March 2026.

Application

2. These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

3. In these Regulations the "2023 Regulations" means the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) Regulations 2023(**4**).

Amendment to the 2023 Regulations

4.—(1) The 2023 Regulations are amended as follows.

(2) In the following places, for "general medical services contract" substitute "GMS Contract"—

(a) in regulation 3(1) (interpretation), in the definition of "contract", and

(b) in regulation 3(1), in the definition of "scheduled drug".

(3) In regulation 3(1), in the definition of "general medical practitioner", for "under section 2 of the Medical Act 1983 (registration of medical practitioners)" substitute "under section 34C of the Medical Act 1983(**5**) (the General Practitioner Register)".

(**3**) 2006 c. 42.
(**4**) S.I. 2023/953 as amended by S.I. 2023/1421.
(**5**) Section 2 was amended by S.I. 2002/3135, S.I. 2006/1914, S.I. 2007/3101, S.I. 2008/1774 and S.I. 2014/1101.

(4) In regulation 3(1), in the definition of "the Health and Care Professions Council Register", for "(registration)" substitute "(establishment and maintenance of register);".

(5) In regulation 3(1), omit the definition of "registered paramedic".

(6) In regulation 3(1), in the definition of "supplementary prescriber", after sub-paragraph (d) insert—

> "and who is employed or engaged by the contractor, or the contractor has retained their services for the purposes of prescribing;".

(7) In regulation 3(1), in the definition of "unified services", for "means the services required to be provided in accordance with regulation 17" substitute "means the services required to be provided in accordance with regulations 17 and 18(2)".

(8) In regulation 3(1), in the Welsh language text, in the definition of "person awdurdodedig", for "62(a) i (c)" substitute "62(a) i (d)".

(9) In regulation 3(1), in the appropriate place, in alphabetical order, insert—

> ""learning disability" ("*anabledd dysgu*") means a significantly reduced ability to understand new or complex information, to learn new skills (impaired intelligence), with a reduced ability to cope independently (impaired social functioning), which started before adulthood;";
>
> ""learning disability services" ("*gwasanaethau anableddau dysgu*") means the service described in paragraph 7A of Schedule 2;";
>
> ""paramedic" ("*parafeddyg*") means a person registered in Part 8 of the Health and Care Professions Council register;";
>
> ""significant cognitive impairment" ("*amhariad gwybyddol sylweddol*") means a person is subject to a significant cognitive impairment if they have a severe and permanent mental condition or neurological change that impacts on the brain's ability to function and has a significant impact on that individual's daily life;".

(10) In regulation 17(1) (unified services), for "period" substitute "periods".

(11) In regulation 17(2)—

(a) for "period" substitute "periods", and

(b) in the English language text, after the word "paragraph", for "is" substitute "are".

(12) In regulation 17(6)—

(a) in sub-paragraph (e), for "maternity medical services" substitute "learning disability services",

(b) in sub-paragraph (f), for "minor surgery services, and" substitute "maternity medical services,",

(c) in sub paragraph (g), for "vaccine and immunisation services." substitute "minor surgery services, and", and

(d) at the end insert—

> "(h) vaccination and immunisation services."

(13) In regulation 22(e) (circumstances in which fees and charges may be made), after "under regulation 21(6)" insert ")".

(14) After regulation 22(i) insert—

> "(j) for prescribing or providing drugs or medicines for malaria chemoprophylaxis."

(15) In Schedule 1, in the table, in the first column, for "severely mentally impaired person" substitute "person with a significant cognitive impairment".

(16) In Schedule 1 (list of prescribed medical certificates), in the table, in the second column—

(a) for "Reserve Forces (Safeguard of Employment) Act 1985 (c. 22)" substitute "Reserve Forces (Safeguard of Employment) Act 1985 (c. 17)";

(b) for "Local Government Finance Act 1992 (c. 28)" substitute "Local Government Finance Act 1992 (c. 14)".

(17) In Schedule 2 (further details about specific Unified Services)—

(a) for the heading "Cervical screening" substitute "Cervical screening services";

(b) for the heading "Child health surveillance" substitute "Child health surveillance services", and

(c) for the heading "Childhood vaccinations and immunisations" substitute "Childhood vaccinations and immunisations services".

(18) In Schedule 2, after paragraph 7, insert the following—

"Learning disabilities services

7A. A contractor must—

(a) develop and maintain a register of those individuals aged 18 and over, with learning disabilities,

(b) demonstrate a systematic recall system for all patients on the register,

(c) provide an offer of an annual health check to include the minimum requirements set out in the Contract Implementation Guidance for Providers of General Medical Services at Annex B(**6**), which is updated from time to time,

(d) integrate the health check as part of the patient's personal health record,

(e) engage with carers and support workers, and with the consent of the patient where possible, a carer or support worker should be fully informed of the patient's health care needs and supported as necessary,

(f) liaise with relevant local support services such as with community and learning disability health professionals, social services and educational support services, and

(g) where appropriate, inform patients and their carers of local and national voluntary support groups for vital information and support."

(19) In Schedule 3 (other contractual terms), paragraph 2, in the English language text—

(a) omit "staffed", and

(b) in sub-paragraph (a), before "for the duration of core hours" insert "staffed".

(20) In Schedule 3, paragraph 18(a), omit "Integrated Medium Term".

(21) In Schedule 3, paragraph 19(e), for "GP Collaborative Integrated Medium-Term" substitute "Cluster".

(**6**) Which can be found at https://www.gov.wales/contract-implementation-guidance-providers-general-medical-services-gms-0

(22) In Schedule 3, paragraph 27(1), for "(or, in the case of a child or an adult who lacks capacity, the person who made the application on the applicant's behalf)" substitute "or a person making an application on behalf of that person".

(23) In Schedule 3, after paragraph 52(1) insert—

"(1A) The contractor must enable the repeat prescribing functionality within the NHS Wales App, to allow patients to order repeatable prescriptions."

(24) In Schedule 3, for paragraph 70 substitute "The contractor may only offer employment to a general medical practitioner on terms which are no less favourable than those contained in the document the "Model terms and conditions of service for a salaried general practitioner employed by a GMS practice" published by the British Medical Association and the NHS Confederation as item 1.2 of the supplementary documents to the GMS contract 2003."

(25) In Schedule 3, paragraph 76(7), after "clinical matters" insert "and non-clinical matters directly related to a patient."

(26) In Schedule 3, paragraph 76(8), for "subject to any notice served under sub-paragraph (1)(b)" substitute "subject to any notice served under sub-paragraph (5)".

(27) In Schedule 3, paragraph 78(3)(b), in the English language text, before "have been enabled" insert "and".

(28) In Schedule 3, paragraph 78(3)(c), for "the contractor is aware of, and has signed an undertaking that it must have regard to the guidelines contained in "The Good Practice Guidelines for GP electronic patient records (Version 4)" published on 21 March 2011" substitute "the contractor is compliant with the "Welsh Information Governance Toolkit" and is aware of and has signed an undertaking that it must have regard to the guidelines contained in "The Good Practice Guidelines for GP electronic patient records (GPGv5)", published on 20th September 2023."

(29) In Schedule 3, paragraph 78, for sub-paragraph (5) substitute—

"(5) Where a patient on the contractor's list of patients dies, the contractor must—

(a) retain the complete medical records relating to that patient on their clinical computer system,

(b) upon receiving an appropriate Health Record request, the contractor must send the complete records relating to that patient to the Local Health Board or the requestor, as the case may be, and

(c) provide the complete medical records to the Local Health Board or requestor within seven days, where possible, beginning with the day the request was made, and in any event before the expiry of 40 days."

(30) In Schedule 3, paragraph 78(10), omit "(5),".

(31) In Schedule 3, paragraph 78(13), after "computer" insert "and "appropriate Health Record request" is a request made by the Local Health Board or one made under the Access to Health Records Act 1990(**7**)".

(32) In Schedule 3, paragraph 87, in the table, under AF007 insert "DEM002", and in the corresponding column insert "The percentage of patients diagnosed with dementia whose care has been reviewed in person or, if clinically appropriate, via telephone or remote video consultation in a face-to-face review in the preceding 15 months."

(**7**) Section 3(f) and (g) of the Access to Health Records Act 1990 sets out the right to access health records where a patient has died.

(33) In Schedule 3, for paragraph 88 including the heading substitute—

"The Primary Care Workforce Intelligence System

88.—(1) The contractor must update the workforce elements of the Primary Care Workforce Intelligence System to include—

(a) head count and whole-time equivalents, and

(b) a record of all new starters and leavers.

(2) The contractor must access, review and update, where necessary, their Primary Care Workforce Intelligence System dashboard view at least once per month."

(34) In Schedule 3, in the heading of paragraph 93, after "and" insert "formal".

(35) In Schedule 3, paragraph 93(4), after "must" insert "consider the performance of the contractor in relation to the contract and"

(36) In Schedule 3, paragraph 93, after sub-paragraph (4) insert—

"(4A) On consideration of the return in sub-paragraph (4), the Local Health Board will determine whether a formal face-to-face review is necessary."

(37) In Schedule 3, paragraph 93(5), before "review" insert "formal".

(38) In Schedule 3, after paragraph 93(7) insert—

"(8) The annual return must include the following information—

(a) the total number of patients on the LD register,

(b) the number of health checks offered, and

(c) the number of heath checks completed.

(9) In this paragraph "LD register" means the list of individuals with learning disabilities managed by GPs in Wales."

(39) In Schedule 3, after paragraph 93 insert—

"Triennial Reviews

93A.—(1) The Local Health Board must undertake a face-to-face review with each contractor at least every three years to discuss the performance of the contractor in relation to the contract.

(2) The contractor or the Local Health Board may, if desired, invite the Local Medical Committee (if any) for the area in which the contractor is providing services under the contract to participate in the formal review.

(3) The Local Health Board must prepare a draft record of the review referred to in sub-paragraph (1) for comment by the contractor and, having regard to such comments, produce a final written record of the review.

(4) The Local Health Board must send a copy of the final record of the review referred to in sub-paragraph (1) to the contractor.

(5) The review in sub-paragraph (1) is in addition to any formal review under paragraph 93."

(40) In Schedule 3, paragraph 117(6)(b), for "Fitness to Practise Panel" substitute "Medical Practitioners Tribunal".

(41) In Schedule 3, for paragraph 119(3)(v) substitute—

"(v) the contractor has refused to comply with a request by the Local Health Board for the contractor to be medically examined because the Local Health Board is concerned that the contractor is incapable of adequately providing services under the contract; and, where the contract is with—

(i) a partnership, and any partner has refused to comply with such a request, or

(ii) a company limited by shares, and any person legally or beneficially owning a share in the company or any director or secretary of the company has refused to comply with such a request, and

the Local Health Board is not satisfied that the contractor is taking adequate steps to deal with the matter."

(42) In Schedule 3, after paragraph 130(2) insert—

"(2A) For the purposes of sub-paragraph (3), any reference to "the contractor" is to be read as including—

(a) in the case of a contract with a partnership, any partner in the partnership, and

(b) in the case of a contract with a company limited by shares, any person legally or beneficially owning a share in the company and any director or secretary of the company."

(43) In Schedule 3, paragraph 130(3), for "may be" substitute "is".

(44) In Schedule 3, paragraph 132(2)(c), in the English language text, for "company limited with shares" substitute "company limited by shares".

(45) In Schedule 3, after paragraph 136 insert—

"Covid Anti-viral treatments

137. The contractor must, if a patient has tested positive for Covid-19, clinically assess the patient inclusive of Covid-19 antiviral treatment. If clinically appropriate the contractor must prescribe and, if relevant, dispense Paxlovid to the patient.

Frailty Indexing

138.—(1) The contractor must undertake a frailty assessment as part of chronic disease annual review, on appropriate patients, utilising the Rockwood assessment tool.

(2) The contractor may also assess patient frailty during other interactions during the year.

(3) The contractor must update the patient's medical record with appropriate coding once a diagnosis has been confirmed.

Ethnicity Recording

139. The contractor must record the ethnicity of all patients, including new patients, in the patient's medical record, using the ethnic group categories in the national minimum dataset questionnaire.

Welsh identity verification service (WIVS)

140. The contractor must support patients requiring assistance with the Welsh Identity Verification Service process to enable patients to access the NHS Wales App."

Jeremy Miles
Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
29 January 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839787-1

9 780348 397871